

# Llyfrynnau Ateb CBAC a CBAC Eduqas

Mae arholiadau CBAC a CBAC Eduqas yn cael eu cwblhau drwy ysgrifennu ymatebion i gwestiynau mewn un o ddau lyfryn:

1. **Llyfryn ateb** lle mae ymatebion i gwestiynau yn cael eu hysgrifennu mewn llyfryn ateb ar wahân (sef llyfryn heb gyfyngiad). Mae'r rhain yn binc, ac yn cynnwys 16 tudalen.
2. **Llyfryn cwestiwn-ateb** lle mae adrannau ar gyfer ysgrifennu ymatebion i bob cwestiwn yn cael eu darparu yn y papur cwestiynau (sef llyfryn 'cyfyngedig')

**Front Cover (Left Page):**

Centre number/Rhif y ganolfan: 9 8 7 6 5  
 Candidate number/Rhif yr ymgeisydd: 4 3 2 1  
 Paper reference/Cyfeirnod y papur: 2 2 9 0 N 2 0 - 1  
 Date of Examination/Dyddiad yr arholiad: 1 7 0 5 1 9  
 Subject/Unit title/Teitl y Pwnc/Uned: UG SEICOLEG UNED 2  
 Surname/Cyfenw: OTHER  
 Other names/Enwau eraill: ANDREW NORMAN  
 Candidate signature/Llofnod yr ymgeisydd: A. N. Other

Question No./Rhif y cwestiwn	Mark/Marc
1	
2	
3	
4	
5	
6	
7	
8	
9	
Total Cyfanswm	

**Back Cover (Right Page):**

Cyfenw: OTHER  
 Rhif y Ganolfan: 98765  
 Rhif yr Ymgeisydd: 04321  
 Enwau Eraill: ANDREW NORMAN

TGAU  
 3310N60-1  
**MATHEMATEG – RHIFEDD UNED 2: LLE CANIATEIR CYFRIFIANNELL HAEN UWCH**  
 DYDD IAU, 10 MAI 2018 – BORE  
 1 awr 45 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL  
 Bydd angen cyfrifiannell ar gyfer yr arholiad hwn. Efallai bydd angen pren mesur, onglydd a chwmpas.

Yr Arholwr yn unig		
Cwestiwn	Marc Uchaf	Marc yr Arholwr
1.	7	
2.	6	
3.	9	
4.	8	
5.	5	
6.	7	
7.	9	
8.	5	
9.	6	
10.	10	
11.	8	
Cyfanswm	80	

**Instructions to Candidates:**

- Use black ink and write on both sides of the paper.
- Write the question number in the space provided in the left hand margin at the start of each answer.
- Use a pencil to mark answers in the right hand margin.
- Leave at least a space of two lines between each answer.
- Do not write in the question book.
- Check that you have written the information required on each book cover.
- DO NOT REMOVE MORE THAN ONE EXAMINATION UNIT FROM THIS BOOKLET.
- Write the numbers of the questions you answer in the order attempted in the boxes under 'Question No.' provided above.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddio inc neu feiro du yn unig. Peidiwch â defnyddio beiro gwl neu hylif cywiro. Cewch ddefnyddio pensil ar gyfer graffiau a diagramau yn unig. Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon. Atebwch bob cwestiwn yn y lleoedd gwag priddol. Os nad oes digon o le defnyddwch y dudalen barhad yng nhefn y llyfryn. Rhaid rhoi rhif y cwestiwn ar gyfer unrhyw waith sy'n cael ei ysgrifennu ar y dudalen barhad. Cymerwch 45 munud i ateb y cwestiynau hyn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dylech roi manylion eich dull datrys os yw'n brotocol. Nid yw'r diagramau wedi'u llunio wrth raddfa os nad yw'n cael ei nodi. Ni fydd atebion lluniadu wrth raddfa yn dderbyniol os oes gofyn i chi gyfrifo. Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn. Yng nghwestiwn 1(a), bydd yr asess'n ystyried ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb iethyddol a mathemategol yn ysgirffonau.

1. Llyfryn ateb (heb gyfyngiad)
2. Llyfryn cwestiwn-ateb (cyfyngedig)

## Gwybodaeth ar gyfer llenwi'r naill lyfryn neu'r llall:

### RHAID i ymgeisywyr:

- Defnyddio inc neu feiro du yn unig.
- Llenwi'r wybodaeth ofynnol ar y clawr blaen mewn PRIFLYTHRENNAU yn y manau a ddarperir.
- Rhoi'r enw(au) a ddefnyddiwyd ar eu cofrestrriad (nid ffugenwau neu enwau 'answyddogol'). Gall gwybodaeth goll neu anghywir arwain at anawsterau wrth brosesu canlyniadau.
- Rhoi croes drwy unrhyw waith nad ydynt am gael ei farcio.

- Sicrhau bod eu gwaith ysgrifennu yn ddarllenadwy. Ni fyddant yn cael eu cosbi am lawysgrifen wael, fodd bynnag ni fydd arholwr yn gallu marcio'r hyn nad yw'n gallu ei ddarllen.

**NI DDYLAI** ymgeiswyr wneud y canlynol:

- Defnyddio pensil, beiro gel, beiros o unrhyw liw arall heblaw du, hylif cywiro.
- Torri allan unrhyw ran o'r llyfryn.

## Gwybodaeth am lenwi llyfryn cwestiwn-ateb (llyfryn cyfyngedig)

- Rhaid ysgrifennu pob ymateb yn y lleoedd a ddarperir yn y llyfryn.
- Os bydd angen mwy o le ar ymgeisydd, efallai y bydd rhywfaint o le ychwanegol i ysgrifennu yn y llyfryn wedi'i labelu "Tudalen ychwanegol, os yw'n angenrheidiol". Os ydynt yn defnyddio hwn, rhaid i ymgeiswyr nodi rhif y cwestiwn yn glir yn yr ymyl ar yr ochr chwith ar gyfer pob un o'u hatebion.
- Os oes angen mwy o le ar ymgeisydd, rhaid rhoi llyfryn parhad 4 tudalen iddo/iddi. Rhaid iddynt gofio llenwi'r wybodaeth ofynnol ar flaen y llyfryn.

## Gwybodaeth am llenwi llyfryn ateb ar wahân (llyfryn heb gyfyngiad)

**RHAID** i ymgeiswyr:

- Ysgrifennu rhif y cwestiwn yn y blychau yn yr ymyl chwith ar ddechrau pob cwestiwn.
- Pan fo'r cwestiwn wedi'i rannu'n is-rannau, er enghraifft a, b a c, ysgrifennu'r llythyren ym mhrif gorff y llyfryn.
- Gadael bwlch o ddwy linell o leiaf rhwng pob ateb.
- Os ydyn nhw'n gwneud camgymeriad wrth lenwi rhifau'r cwestiynau, dylent lenwi'r ddau flwch yn gyfan gwbl ac ysgrifennu'r rhif yn y lle gwag isod.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

- Defnyddiwch inc neu feiro du yn unig. Peidiwch â defnyddio pensil neu feiro gel. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.
- Ysgrifennwch y wybodaeth ofynnol yn y lleoedd uchod. Defnyddiwch BRIF LYTHRENNAU.
- Defnyddiwch ddwy ochr y papur. Ysgrifennwch ym manau gwyn y llyfryn yn unig.
- Rhwch groes drwy unrhyw waith nad ydych am gael wedi'i farcio. Peidiwch â rhwygo allan unrhyw ran o'r llyfryn hwn. Rhaid cyflwyno pob darn o waith.

<p>0 1</p> <p>□ □</p> <p>□ □</p> <p>0 2</p> <p>■ ■</p> <p>0 3</p> <p>□ □</p>	<p>a) Ysgrifennwch rif y cwestiwn yn y blychau a ddarparwyd yn yr ymyl ar yr ochr chwith ar ddechrau bob cwestiwn.</p> <p>b) Pan fo'r cwestiwn wedi'i rannu'n is-rannau, er enghraifft a, b, c, ysgrifennwch y llythyren ym mhrif gorff y llyfryn.</p> <p>Dylech adael gofod o ddwy linell o leiaf rhwng bob ateb.</p> <p>Os ydych chi'n gwneud gwall wrth lenwi rhifau'r cwestiynau, llenwch y ddau flwch yn llawn ac ysgrifennwch y rhif yn y gofod o dan y bwlch rydych wedi'i lenwi.</p>	<p>Gadewch yn wag</p>
--	--	-----------------------

- Os oes angen mwy o le ar ymgeisydd, rhaid rhoi llyfryn parhad 4 tudalen iddo/iddi. Rhaid iddynt gofio llenwi'r wybodaeth ofynnol ar flaen y llyfryn, a rhaid gosod hwn y tu mewn i'r prif lyfr atebion.

## Taflenni blaen

Rhaid i daflen glawr berthnasol y CGC wedi'i cwblhau gyd-fynd â sgrïpt unrhyw ymgeisydd sydd wedi defnyddio un o'r canlynol:

- Ysgrifennydd (Ffurflen 2 CGC)
- Cynorthwydd ymarferol (Ffurflen 3 CGC)
- Trawsgrifiad Braille (Ffurflen 5 CGC)
- Gweithiwr cyfathrebu proffesiynol (Ffurflen 6 CGC)

Mae'r taflenni clawr hyn ar gael i'w llwytho i lawr oddi ar [wefan y CGC](#). Ymhob achos dylid cwblhau'r daflen glawr a'i gosod y tu mewn i'r llyfryn ateb.

Ar gyfer sgrïptiau wedi'u gairbroesu, rhaid llwytho taflen glawr i lawr o ran 'Arholiadau' ein gwefan. Rhaid cwblhau'r daflen glawr a'i chlymu â sgrïpt gyflawn yr ymgeisydd gan ddefnyddio tagiau trysorlys. Os cwblhawyd arholiad gan ddefnyddio prosesydd geiriau heb ddefnyddio llyfryn ateb i gofnodi'r atebion, dylid atodi'r daflen glawr â'r sgrïpt gyflawn.

## Sgrïptiau sydd wedi'u gairbroesu

Rhaid i sgrïptiau wedi'u gairbroesu gynnwys pennyn a/neu throedyn ar bob tudalen sy'n cynnwys gwybodaeth yr ymgeisydd perthnasol (rhif y ganolfan, rhif yr ymgeisydd, a chod y papur) ynghyd â manylion nifer y tudalennau (e.e. tudalen 1 o 4). Os na ddefnyddiwyd y llyfr atebion i gofnodi unrhyw atebion, dylid cyflwyno'r sgrïpt wedi'i theipio gyda'r daflen glawr prosesydd geiriau ynghlwm, ac **ni ddylid** ei rhoi mewn llyfr ateb.

## Penderfynu pa lyfryn sydd ei angen

Darperir gwybodaeth ynghylch a oes angen llyfryn ateb ar wahân ai peidio yn y llyfryn 'Gofynion Arholiadau' a gyhoeddir ar gyfer pob sesiwn arholiadau (ar ein gwefan ac anfonir ffurf copi caled), ac ar flaen pob papur cwestiynau.

Mae CBAC/Eduqas yn cyhoeddi dau fath o lyfryn ateb:

1. Llyfryn ateb safonol pinc ag 16 tudalen i'w ddefnyddio pryd bynnag y nodir bod angen llyfryn ateb ar wahân.
2. Llyfryn parhad safonol pinc â 4 tudalen i'w ddefnyddio pan fydd angen rhagor o le.

## Anfon a storio llyfrynnau ateb

Anfonir llyfrynnau ateb i bob canolfan cyn pob cyfres arholiadau. Anfonir llyfrynnau ateb ar gyfer cyfres Mai/Mehefin ar sail cofrestriadau rhagarweiniol yn ystod y gaeaf bob blwyddyn, a bydd dosbarthiad ychwanegol yn y gwanwyn i ystyried unrhyw newidiadau a wnaed yn y cofrestriadau terfynol.

Dylid defnyddio llyfrynnau ateb mewn arholiadau allanol yn unig, ac **ni ddylid** eu defnyddio at unrhyw bwrpas arall gan gynnwys ar gyfer ffug arholiadau. Mae rheoliadau'r CGC yn mynnu eu bod yn cael eu storio'n ddiogel yn storfa ddiogel y ganolfan.